Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Deddf Adeiladu 1984**

**Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr wedi'u Cymeradwyo, ac ati) 2010**

**HYSBYSIAD DYNODI**

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru, o dan adran 49 o Ddeddf Adeiladu 1984, rheoliadau 3 a 5 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010, gyda chaniatâd CICAIR Limited [1], yn DYNODI CICAIR Limited (y "corff dynodedig") i gymeradwyo arolygwyr at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf honno a'r Rheoliadau hynny, yn unol â'r telerau ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir isod.

Daw'r dynodiad hwn i rym ar 31 Mawrth 2014 ac mae'n gymwys o ran Cymru. Bydd yn parhau mewn grym hyd nes y'i tynnir yn ôl gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 6(3) o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010.

Unwaith y bydd y dynodiad hwn yn dod i rym, bydd y dynodiadau a roddwyd i Gyngor y Diwydiant Adeiladu ar 1 Gorffennaf 1996 mewn cysylltiad ag unigolion ac ar 28 Medi 1998 mewn cysylltiad â chymeradwyo cyrff corfforaethol yn cael eu tynnu'n ôl yn unol â rheoliad 6(3) o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010.

[1] Cwmni preifat cyfyngedig drwy [warant] a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd o dan y Deddfau Cwmnïau (diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006, p. 46). Rhif cofrestru'r cwmni yw 8881582

**Telerau a chyfyngiadau**

(a) Bydd y corff dynodedig yn cymeradwyo arolygwyr ac yn terfynu cymeradwyaeth a fydd wedi ei rhoi i arolygwyr, yn unol ag adran 49 o Ddeddf 1984 a Rhan 2 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010.

(b) Bydd y corff dynodedig yn cadw ac yn cyhoeddi Cod Ymddygiad ar gyfer arolygwyr cymeradwy, gan nodi sut y dylai arolygwyr cymeradwy gyflawni eu cyfrifoldebau. Bydd y Cod yn cynnwys gweithdrefnau disgyblu a'r mathau o sancsiynau i'w defnyddio ar gyfer arolygwyr cymeradwy a fydd yn gweithredu'n groes i ofynion Deddf Adeiladu 1984, Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 neu ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad.)

(c) Bydd y corff dynodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob arolygydd cymeradwy gytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel un o amodau cael ei gymeradwyo neu ei ail-gymeradwyo.

(d) Bydd gan y corff dynodedig weithdrefn gwyno gyhoeddedig a fydd â'r nod o ddatrys, mewn modd amserol, gwynion a wneir yn erbyn arolygwyr cymeradwy. Bydd y weithdrefn gwyno yn cynnwys ystyried cwynion am gymhwysedd arolygwyr cymeradwy ac ystyried a fydd arolygwyr cymeradwy wedi cymryd camau rhesymol i'w bodloni eu hunain bod y gwaith adeiladu yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Adeiladu 2010. Ni fydd y weithdrefn yn cynnwys ymdrin â chwynion a fydd yn ganlyniad i anfodlonrwydd â'r dyfarniad a wneir gan arolygydd cymeradwy ynghylch a yw gwaith adeiladu ar safle penodol yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Adeiladu.

(e) Bydd y corff dynodedig, ar gais Gweinidogion Cymru, yn daparu'r cyfryw wybodaeth ag y bydd Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

(f) Bydd y corff dynodedig, o dro i dro, yn cadw gwyliadwriaeth ar weithrediadau arolygwyr cymeradwy er mwyn gwneud yn siŵr bod arolygwyr cymeradwy yn cydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf Adeiladu 1984, Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 neu ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad.) Caiff y corff dynodedig ddefnyddio dull o weithredu ar sail risg wrth benderfynu pryd i ymgymryd â'r gwaith o gadw gwyliadwriaeth ar arolygydd cymeradwy. Ni ddylai mwy

na thair blynedd fynd heibio rhwng pob achos o gadw gwyliadwriaeth ar bob arolygydd cymeradwy.

(g) Bydd y corff dynodedig yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys gwybodaeth am nifer yr arolygwyr a fydd wedi eu cymeradwyo a'u hailgymeradwyo, nifer y cymeradwyaethau a fydd wedi mynd yn ddi-rym neu wedi eu tynnu yn ôl, nifer y cwynion a fydd wedi dod i law, a chanlyniadau'r cwynion hynny, nifer a natur a chanlyniadau'r camau disgyblu a fydd wedi eu cymryd, a chyfrifon ariannol blynyddol y corff.

(h) Bydd y corff dynodedig yn datblygu ac yn cyhoeddi system rheoli ansawdd a ddogfennir.

*Llofnodwyd gan*

31.3.14

**Carl Sargeant**

**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**